

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 3^{YDD} MEHEFIN 2020
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

Oherwydd y pandemig sydd ohoni, ac er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau gyda'n gwaith fe drafodwyd fod angen cynnal cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangernyw yn rhithiol. Penderfynwyd felly cynnwys y frawddeg ganlynol yn ein Rheolau Sefydlog: "Yn sgil COVID-19 ag unrhyw argyfyngau yn y dyfodol, fe fyddwn fel Cyngor Cymuned Llangernyw yn gallu cyfarfod yn rhithiol i drafod materion."

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Gwynfor Davies (GD), R Emlyn Williams (REW), Mark Davies (MD), Elen H Edwards (EHE) a Gwydion Jones (GJ)

1.3 Ymddiheuriadau: Einir Williams (EW), Garffild Ll Lewis (GLL) a Diane Roberts (DR) (methu bod yn bresennol oherwydd problemau cysylltu â'r wê)

1.4 Absennol: Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

GD – cais cynllunio 3.7.

3 CEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 Rhif 0/47107: dim sylwadau.

3.2 Rhif 0/47196: dim sylwadau.

3.3 Rhif 0/47253: dim sylwadau.

3.4 Rhif 0/47299: dim sylwadau.

3.5 Rhif 0/47320: dim sylwadau.

3.6 Rhif 0/47327: trafodwyd fod y cais wedi bod gerbron o'r blaen. Dim sylwadau, cefnogi'r cais.

3.7 Rhif 0/47352: Gadawodd GD y cyfarfod tra cynhaliwyd y drafodaeth. Dim sylwadau, cefnogi'r cais.

4 MATERION ARIANOL

4.1 Trafodwyd y ddogfen gwariant, gwariant yn £6,994.93. Arian i ddod yn ôl (£777.60) am atgyweirio llwybrau. Cyllideb o £12,205.00, tan-wariant mwyaf oherwydd fod £2,000 yn erbyn etholiad a £2,333 yn erbyn costau clerc. AV yn cynnig a GJ yn eilio eu bod yn debryn y ffigyrau yn y ddogfen gwariant. EHE yn adrodd fod DR yn trafod efo'r cyfrifydd ynglyn ac ad-daliad TAW.

4.2 Cadarnhawyd fod gwaith yr awdit yn cael ei wneud gan y cyfrifydd cyn ei yrru i BDO. Angen gadael digon o amser i'r cyfrifydd baratoi'r dogfennau.

4.3 Cronfa Bro Cernyw: GD yn gofyn os ydi'r cyfrif yma fod i fynd i mewn i'r BDO. Trafodwyd fod y cyfrif wedi newid ei enw ond bydd angen iddo fynd i'r BDO oherwydd fod y Cyngor yn ei reoli. GD i ofalu fydd y dogfennau ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.

5 MATERION ERAILL

5.1 Diweddariad gan y Cynghorydd Sir:

"Yn dilyn y cyfarfod wythnos ddwethaf, rydw'i wedi bod yn gohebu hefo Swyddogion y Cyngor Sir i drafod y cynllun Natur ac i ofyn am ganiatad i ddefnyddio'r llain o dir ger y cwrt aml bwrpas, sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Sir. Rydw'i wedi cael ateb a rydw'i yn ei atodi isod yn ogystal a nodyn gen i yn ymateb. Mae sawl opsiwn ond bydd angen i chi drafod

hyn gyda swyddog cymunedol y Cyngor - Phil Vipond - a phenderfynu yn weddol fuan os yw Cadw Cymru'n Daclus yn awyddus i ddechrau gweithio yn ystod mis Mehefin.

Mae nifer o geisiadau cynllunio gerbron heno - rydw'i yn wybyddus o un ohonynt (Pentrewern), ac wedi trafod gyda'r perchnogion. Er gwybodaeth i'r Cyngor Cymuned, byddaf yn cefnogi'r cais hwn pan fydd yn mynd drwy'r broses gynllunio ffurfiol maes o law."

5.2 Tybiau blodau – AV yn diolch i bawb am helpu i blannu ers y cyfarfod diwethaf.

6 CYFARFOD NESAF

17^{eg} Mehefin 2020

Cyfarfod yn dod i ben 8:05yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan